The Planning Inspectorate

The Planning Inspectorate
National Infrastructure Directorate
3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Direct Line:
Help line: 0303 444 5000
Fax No:
e-mail: brechfawest@infrastructure.gsi.gov.uk

Your Ref:

Our Ref: EN010036

Date: 10 Mai 2012

Annwyl Syr/Madam

**Cais am Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa – Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Dull Archwilio) 2010:**

- **Diwygiad i'r Amserlen Archwilio o dan Reol 8 (3)**
- **Manylion pellach o wrandawiadau tebygol**
- **Ceisiadau'r Awdurdod Archwilio am wybodaeth bellach a sylwadau ysgrifenedig o dan Reol 17**

Hoffwn ddiolch i'r rheiny ohonoch a gyflwynodd ymatebion ar ystod o faterion erbyn 25 Ebrill yn unol â'r amserlen. Mae'r rhain wedi bod yn ddefnyddiol o ran llywio camau nesaf yr archwiliad. Atodaf at y llythyr hwn:

- Atodiad A sy'n cynnwys manylion pellach ar fy mwriadau presennol mewn perthynas ag amser, dyddiad, lleoliad a phynciau trafod gwrandawiadau;
- Atodiad B sy'n gosod allan nifer o gwestiynau ychwanegol yr hoffwn ymatebion iddynt; ac
- Atodiad C sy'n darparu amserlen archwilio ddiwygiedig.

Sylwaf ar bob un o'r materion hyn isod.

## A. Gwrandawiadau

Atodaf fel Atodiad A fanylion pellach am fy mwriadau presennol ar gyfer gwrandawiadau ar faterion penodol a gwrandawiadau llawr agored, gan gynnwys gwrandawiadau penodol mewn perthynas â sŵn, cludiant a mynediad lleol ac ecoleg. Dylai'r rhain eich helpu chi wrth i chi ein hysbysu ni o'ch dymuniad i gymryd rhan mewn gwrandawiadau – rwy'n eich atgoffa bod yn rhaid i chi ein hysbysu ni erbyn 25 Mai 2012 yn unol â'r amserlen a atodwyd i'm llythyr dyddiedig 23 Mawrth 2012. Sylwch y bydd hysbysiad ffurfiol o wrandawiadau yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 25 Mai ac yn unol â'r amserlen ddiwygiedig a atodir fel Atodiad C.

Mae gan yr holl bartïon â buddiant hawl i fynychu gwrandawiadau. Ar hyn o bryd, buaswn yn dymuno i'r sefydliadau canlynol fynychu gwrandawiadau ar faterion penodol:

**Sŵn**
Yr ymgeisydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Statkraft
Grŵp Blaengwen

**Cludiant a Mynediad Lleol**
Yr ymgeisydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Llywodraeth Cymru

**Ecoleg**

Yr ymgeisydd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyngor Sir Gaerfyrddin

Rwyf hefyd wedi ystyried gwrandawiad a allai gwmpasu'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, adran 106 ac unrhyw faterion sy'n weddill o'r Adroddiad Effaith Leol. Am y tro, rwyf wedi clustnodi 12 Gorffennaf 2012 ar gyfer hyn. Os penderfynaf gynnal y gwrandawiad hwn, byddaf yn rhoi gwybod i'r holl bartïon â buddiant am y lleoliad a'r amser yn nes at yr amser.

Mae'n bosibl y bydd hefyd o gymorth os wyf yn rhoi ychydig o rybudd ymlaen llaw o sut rwy'n bwriadu cynnal y gwrandawiadau. Os ydych wedi gofyn am gael siarad, disgwylir i chi grynhoi'n gyflym iawn y pwyntiau allweddol yr hoffech eu gwneud, a disgwylir i'r rhain fod yn seiliedig ar eich sylwadau cynharach. Bydd y dull archwilio yn chwilysaidd ei natur. Felly, os siaradwch mewn gwrandawiad, yn enwedig gwrandawiad ar fater penodol, dylech ddisgwyl gael eich holi am yr hyn a ddywedwch. Bwriadaf ganiatáu i'r rheiny yn y gwrandawiadau wneud sylwadau ar ymatebion partïon eraill, lle, yn fy marn i, y mae hyn yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae'n bosibl y bydd rhaid i mi newid y dull hwn os yw'n ymddangos nad yw'n helpu wrth gynnal yr archwiliad.

Yn y gwrandawiadau llawr agored hefyd, bwriadaf bennu terfyn amser ar gyfer pob unigolyn sy'n dymuno siarad er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Dylai eich sylwadau llafar ganolbwyntio ar faterion yn eich sylwadau ysgrifenedig cynharach ac ni ddylent ailadrodd pwyntiau a wnaed gan eraill. Yn ogystal, gallwch fod yn sicr y byddaf wedi darllen eich sylwadau perthnasol ac ysgrifenedig ac felly ni fydd rhaid i chi ailadrodd yr hyn rydych eisoes wedi ei gyflwyno yn ysgrifenedig.

Gweler Nodyn Cyngor 8.5 'Cymryd rhan yn yr Archwiliad' ar y wefan seilwaith cenedlaethol[1] i gael rhagor o wybodaeth am sut y cynhelir gwrandawiadau.

**B. Cwestiynau Pellach**

Mae Atodiad B yn gosod allan ceisiadau'r Awdurdod Archwilio am wybodaeth ychwanegol a sylwadau ysgrifenedig a gyhoeddir o dan reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Dull Archwilio) 2010 (Rheolau Archwilio).

Rhaid i'r Awdurdod Archwilio dderbyn ymatebion erbyn **25 Mai 2012.** Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried yr holl ymatebion sy'n cael eu derbyn erbyn y dyddiad hwn, gan gynnwys y rhai lle mae partïon â buddiant wedi dewis ymdrin â cheisiadau nad ydynt yn cyfeirio atynt hwy. Caiff ymatebion eu cyhoeddi ar dudalen prosiect Brechfa y wefan seilwaith cenedlaethol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 25 Mai 2012.


**C. Amserlen Ddiwygiedig**

Mae amserlen ddiwygiedig sy'n ystyried yr uchod yn Atodiad C.

**D. Archwiliad Safle**

Fel sy'n amlwg ar yr amserlen archwilio, bwriadaf archwilio'r safle yng nghwmni'r partïon â buddiant ar **14 Mehefin 2012**. Sylwch fod rhaid darparu unrhyw sylwadau am drefn yr ymweliad hwn erbyn 25 Mai 2012 fel yr esbonnir yn yr amserlen sydd ynghlwm wrth fy llythyr dyddiedig 23 Mawrth 2012. Er mwyn caniatáu i mi ystyried yr holl awgrymiadau a dderbyniaf oddi wrth bartïon â buddiant erbyn y terfyn amser hwn, bydd yr holl bartïon â buddiant yn cael eu hysbysu am amser a lleoliad yr archwiliad safle cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 25 Mai 2012.

Yn gywir



*Bob Macey*
**Awdurdod Archwilio**

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor ar ymgeisio am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ar gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a chyngor proffesiynol eich hun, yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei roi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Diogelir preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

[1] http://infrastructure.planningportal.gov.uk/wp-content/uploads/2012/03/Advice-note-8.5.pdf

**<u>Atodiad A</u>**

**Fferm Wynt Arfaethedig Gorllewin Coedwig Brechfa – Sir Gaerfyrddin (EN010008)**

**Bwriadau Cyfredol ar gyfer Dyddiad, Amser a Lleoliad Gwrandawiadau**

**GWRANDAWIADAU AR FATERION PENODOL**

| Dyddiad arfaethedig | Amser arfaethedig | Manylion |
|---|---|---|
| 20 Mehefin 2012 | Dechrau 10:00am<br>Cofrestru 9:30am | **GWRANDAWIAD AR FATER PENODOL**<br>**MATER: Sŵn**<br>Mae materion sy'n debygol o gael eu trafod o dan y mater hwn yn cynnwys:<br>• Pryderon y gymuned leol gan gynnwys lefel a natur y sŵn a materion iechyd posibl gan ddefnyddio profiad Alltwalis lle bo'n briodol;<br>• Profiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru o ran delio â chwynion am ffermydd gwynt presennol, a'r gwersi a ddysgwyd;<br>• Dull ymgeiswyr at fesur sŵn cefndir, gan gynnwys amcangyfrif hafaliadau;<br>• Terfynau arfaethedig;<br>• Effeithiau cynyddol;<br>• Monitro cydymffurfio a delio â chwynion; a<br>• Darpariaethau GCD (gan gynnwys gofynion) yn perthyn i sŵn. |
| 21 Mehefin 2012 | Dechrau 10:00am<br>Cofrestru 9:30am | **GWRANDAWIAD AR FATER PENODOL**<br>**MATER: Cludiant a Mynediad Lleol**<br>Mae materion sy'n debygol o gael eu trafod o dan y mater hwn yn cynnwys:<br>• Effeithiau amgylcheddol y mynediad arfaethedig;<br>• I ba raddau y gellir lleddfu'r effeithiau hyn;<br>• Effaith y mynediad arfaethedig ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gytundeb presennol adran 106;<br>• Yr angen am leddfu mewn perthynas â'r adran 106 bresennol, a natur a graddau hynny;<br>• Dewisiadau eraill a ystyriwyd ar gyfer y mynediad arfaethedig ac i ba raddau y lleddfir unrhyw ganlyniadau drwg;<br>• Pryderon cludiant, diogelwch y ffyrdd ac (os oes angen) materion cludiant ehangach; a<br>• Darpariaethau GCD (gan gynnwys gofynion) yn perthyn i gludiant a mynediad lleol. |
| 21 Mehefin 2012 | Dechrau 14:00<br>Cofrestru 13:30 | **GWRANDAWIAD AR FATER PENODOL**<br>**MATER: Ecoleg**<br>Mae materion sy'n debygol o gael eu trafod o dan y mater hwn yn cynnwys:<br>• Adroddiad Sgrinio Asesiad ar Reoleiddio Cynefinoedd – cadernid y fethodoleg, yr asesiad a'r casgliad;<br>• Materion eraill yn dilyn ystyried Datganiadau o Dir Cyffredin; a<br>• Darpariaethau GCD (gan gynnwys gofynion) yn perthyn i ecoleg. |

Fy mwriad ar hyn o bryd yw cynnal yr holl wrandawiadau uchod yn Nghanolfan Waunifor (Neuadd Cedrwydd), Maesycrugiau, ger Pencader, SA39 9LX.

**GWRANDAWIADAU LLAWR AGORED**

**Fy mwriad ar hyn o bryd yw cynnal gwrandawiadau llawr agored** o dan adran 93 DC2008 ar **11 Gorffennaf 2012** am 10:00 (cofrestru 9:30am) yn Neuadd Eglwys Brechfa, St.Teilo, Brechfa, SA32 7RA ac am 14:00 (cofrestru 13:30) yng Nghanolfan Waunifor (Neuadd Cedrwydd), Maesycrugiau, ger Pencader, SA39 9LX.

Neilltuwyd **dydd Iau 12 Gorffennaf 2012** ar gyfer unrhyw wrandawiadau ychwanegol sy'n ofynnol.

**Atodiad B**

## Fferm Wynt Arfaethedig Gorllewin Coedwig Brechfa – Sir Gaerfyrddin (EN010008)

## Rheol 17 y Rheolau Archwilio – Cais am Wybodaeth Bellach a Sylwadau Ysgrifenedig

Mae'r cwestiynau canlynol yn ceisio rhagor o wybodaeth neu esboniad o dan Reol 17 y Rheolau Archwilio. Trefnir y cwestiynau yn gyffredinol yn grwpiau a gyfeirir at bartïon penodol wedi'u trefnu yn nhrefn yr wyddor. Er hynny, cynghorir yr **holl** bartïon i ddarllen yr **holl** gwestiynau. Cyfeirir rhai cwestiynau at fwy nag un parti neu gallent fod yn berthnasol i fuddiannau partïon nad yw'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn yn uniongyrchol iddynt ymateb. Gall partïon ymateb yn ôl eu disgresiwn i unrhyw rai o'r cwestiynau a restrir os dymunant ond mae gan yr Awdurdod Archwilio bartïon penodol y dymuna ef glywed oddi wrthynt mewn perthynas â'r cwestiynau a restrir.

Mae'n bwysig cofio os nad yw ymatebion yn cael eu derbyn erbyn **25 Mai 2012** y gall yr Awdurdod Archwilio eu diystyru[2].

Cyhoeddir ymatebion ar dudalennau Seilwaith Cenedlaethol gwefan y Porth Cynllunio cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl **25 Mai 2012**.

### Cludiant

**C1.** Gofynnir i **Lywodraeth Cymru** gadarnhau a yw'n cytuno bod gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu sy'n perthyn i'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn ffordd briodol o ymdrin ag unrhyw bryderon sy'n weddill mewn perthynas â chludiant i'r safle. Os nad yw'n cytuno, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pa faterion na ellir ymdrin â nhw gan y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a pham, ac amlygu sut y gellid ymdrin â'u pryder(on) neu eu lleddfu.

**C2.** Mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn amlygu ystod o faterion sy'n perthyn i gludant i'r safle y mae'r ymgeisydd a **Chyngor Sir Gaerfyrddin** yn cytuno arnynt, a dau fater lle maent yn anghytuno. Mae Adroddiad Effath Leol y Cyngor yn rhestru ystod o bryderon sy'n ymwneud â chludiant, ac mae paragraff 8.45 yn sôn bod y gofynion yn y GCD drafft yn sicrhau bod y dull darparu ar gyfer sicrhau y rhoddir y mesurau lleddfu hynny ar waith. Nid yw'n glir i'r Awdurdod Archwilio a yw'r casgliad hwn yn perthyn i'r materion yn y SOCG lle nad oedd y partïon yn cytuno, a byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe gallai'r Cyngor gadarnhau a oes yna faterion cludiant adeiladu nad oes modd eu lleddfu'n foddhaol gan y Cynllun Rheoli, ac esbonio beth yw'r rhain.

### Cysylltiad â'r Grid

**C3.** Gofynnir i **Gyngor Cefn Gwlad Cymru** a ydynt yn ystyried bod unrhyw resymau amlwg pam fo caniatâd datblygu ar gyfer y cysylltiad grid arfaethedig yn

[2] Rheol 10(8) Rheol 13(2)

debygol o gael ei wrthod ac, os felly, pam. Os yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn barnu bod hyn yn debygol, gofynnir iddynt amlygu'r tirweddau, cynefinoedd a/neu rywogaethau perthnasol sy'n debygol o gael eu heffeithio a pham eu bod yn teimlo nad oes modd osgoi na lleddfu'r canlyniadau.

## Ecoleg

**C4.** Mae sylw ysgrifenedig Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhestru rhai gofynion penodol sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr y mae'n rhaid eu hymgorffori yn y Datganiad Dull Adeiladu terfynol a'u diogelu trwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Gofynnir i **Gyngor Cefn Gwlad Cymru** gadarnhau pa un a yw hyn yn bodloni eu pryderon mewn perthynas ag ansawdd dŵr fel y nodwyd yn eu sylwadau yn Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd.  Os nad ydynt, gofynnir iddynt arwain ar hyn a chysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r ymgeisydd os bydd angen, i gynhyrchu Datganiad o Dir Cyffredin sy'n amlygu meysydd o gytundeb ac anghytundeb er mwyn i'r Awdurdod Archwilio eu hystyried.

**C5.** Mae'r Awdurdod Archwilio wedi nodi'r llinell amser sydd ynghlwm wrth y datganiad ategol mewn perthynas â Datganiad o Dir Cyffredin gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru.  Gofynnir i'r **ymgeisydd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru** sicrhau y darperir y Datganiad o Dir Cyffredin hwn yn gyflym.

## Adran 106

**C6.** Mae Adroddiad Effaith Leol Cyngor Sir Gaerfyrddin yn amlygu nifer o faterion y credant y dylid eu hymgorffori mewn cytundeb Adran 106, ac mae'n cynghori bod cytundeb Adran 106 ychwanegol neu well yn cael ei drafod.  Gofynnir i'r **ymgeisydd** egluro ei fwriadau mewn perthynas ag unrhyw gytundeb(au) Adran 106 pellach ac ymdrin â'r materion a amlygwyd gan yr awdurdod lleol yn ei ymateb.

## Cyflenwadau dŵr preifat

**C7.** Yn ogystal, mae'r Awdurdod Archwilio wedi nodi bod y Datganiad Amgylcheddol yn amlygu nad oes fawr o debygolrwydd o unrhyw effaith ddrwg gan y datblygiad arfaethedig ar gyflenwadau dŵr preifat.  Yn ei ymateb i sylwadau perthnasol, mae'r ymgeisydd yn sôn am weithredu (paragraff 8.88) y gellid ei gymryd pe bai cyflenwadau dŵr preifat yn cael eu peryglu.  Ni ymddengys fod dull i sicrhau y byddai hyn yn digwydd naill ai trwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu neu gytundeb Adran 106 arfaethedig.  Gofynnir i'r **ymgeisydd** esbonio sut mae sicrhau darparu'r mesurau y soniodd yr ymgeisydd amdanynt.

**Atodiad C**

**Fferm Wynt Arfaethedig Gorllewin Coedwig Brechfa – Sir Gaerfyrddin (EN010008)**

**Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer Archwilio'r Cais a gyhoeddwyd ar 10 Mai 2012 o dan Reol 8(3)**

| Eitem | Materion | Dyddiadau Priodol |
|---|---|---|
| **1** | **Cyfarfod cychwynnol a dyddiad dechrau'r archwiliad** | **13 Mawrth 2012** |
| **2** | **Terfyn amser yr Awdurdod Archwilio ar gyfer derbyn:**<br>☐ Sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys crynodebau o unrhyw sylwadau ysgrifenedig sy'n fwy na 1500 o eiriau)[3]<br>☐ Adroddiad Effaith Leol gan yr awdurdodau lleol perthnasol[4]<br>☐ Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio[5]<br>☐ Sylwadau ar sylwadau perthnasol[6]<br>☐ Drafft diwygiedig yr ymgeisydd o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu gyda nodyn yn ymateb i'r materion a godwyd<br>☐ Datganiadau o Dir Gyffredin[7] gan gynnwys y rheiny a geir yn yr atodlen o gwestiynau yn Atodiad C. | **25 Ebrill 2012** |
| **3** | **Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi amserlen ddiwygiedig a chais am wybodaeth ychwanegol o** | **11 Mai 2012** |

[3] Rheol 8(1)(a) a Rheol 10(1) a (2)
[4] Rheol 8(1)(j)
[5] Rheol 8 (1)(b) – gweler Atodiad C y llythyr penderfyniad gweithdrefnol hwn
[6] Rheol 8(1)(c)(i) a (d)(i) a Rheol 3(2)(b)
[7] Rheol 8(1)(e)

| | | |
|---|---|---|
| | **dan reol 17** | |
| 4 | **Terfyn amser yr Awdurdod Archwilio ar gyfer derbyn**<br>☐ Unrhyw sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â:<br>o Sylwadau ysgrifenedig[8]<br>o Adroddiadau effaith leol[9]<br>o Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio[10]<br>o Sylwadau ar sylwadau perthnasol[11]<br>o Datganiadau o dir cyffredin[12]<br>o Drafft diwygiedig yr ymgeisydd o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r nodyn yn ymateb i'r materion a godwyd.<br>☐ Hysbysiad gan bartïon â buddiant o'u dymuniad i gael eu clywed mewn gwrandawiad llawr agored[13]<br>☐ Hysbysiad gan bartïon â buddiant o'u dymuniad i wneud sylwadau ar lafar mewn unrhyw wrandawiad ar bwnc penodol[14]<br>☐ Awgrymiadau trefnu ar gyfer yr ymweliad safle | **25 Mai 2012** |
| 5 | **Hysbysiad gan yr Awdurdod Archwilio o ddyddiad, amser a lleoliad:**<br>☐ Gwrandawiad(au) llawr agored[15] | **29 Mai 2012** |

[8] Rheol 8(1)(c)(i) a (d)(i) a Rheol 3(2)(b)
[9] Rheol 8(b)(j)
[10] Rheol 8(c)(ii) a (d)(ii)
[11] Rheol 8(1)(c) a (d)
[12] Rheol 8(b)(k)
[13] Adran 93(1) Deddf Cynllunio 2008 Rheol 8(1)(f) a Rheol 13(1)
[14] Adran 91 Deddf Cynllunio 2008 a Rheol 8(1)(k)
[15] Adran 93 Deddf Cynllunio 2008 a Rheol 13(3)(a)

| | | |
|---|---|---|
| | ☐ Gwrandawiad(au) ar fater penodol[16] | |
| **6** | **Hysbysiad gan yr Awdurdod Archwilio o ddyddiad, amser a lleoliad:**<br>☐ Ymweliad safle yng nghwmni partïon â buddiant[17] | **1 Mehefin 2012** |
| **7** | **Ymweliad safle'r Awdurdod Archwilio yng nghwmni partïon â buddiant[18]** | **14 Mehefin 2012** |
| **8** | **Dyddiadau wrth gefn ar gyfer yr ymweliad safle** os bydd y tywydd ar 14/15 Mehefin yn atal archwiliad safle ystyrlon neu os bydd angen mwy o amser | **15 a 18 Mehefin 2012** |
| **9** | **Dyddiad wrth gefn ar gyfer gwrandawiad penodol ar sŵn** | **20 Mehefin 2012, 10am** |
| **10** | **Dyddiad wrth gefn ar gyfer gwrandawiad penodol ar gludiant a mynediad lleol** | **21 Mehefin 2012, 10am** |
| **11** | **Dyddiad wrth gefn ar gyfer gwrandawiad penodol ar ecoleg** | **21 Mehefin 2012, 14:00** |
| **12** | **Terfyn amser yr Awdurdod Archwilio ar gyfer derbyn:**<br>☐ Crynodebau ysgrifenedig o unrhyw achos a gyflwynir mewn gwrandawiadau ar fater penodol ar gynhelir ar 19-21 Mehefin[19] | **28 Mehefin 2012** |
| **13** | **Gwrandawiadau Llawr Agored[20]** | **11 Gorffennaf 2012** |

[16] Adran 91 Deddf Cynllunio 2008, Rheol 13(3)(a) a Rheol 8(1)(h)
[17] Rheol 16(3)
[18] Rheol 16(3)
[19] Rheol 8(1)(k)
[20] Rheol 13(3)(a)

| | | |
|---|---|---|
| **14** | **Dyddiad wrth gefn ar gyfer unrhyw wrandawiad(au) ychwanegol gofynnol** (lleoliad i'w gadarnhau yn hwyrach) | **12 Gorffennaf 2012** |
| **15** | **Terfyn amser yr Awdurdod Archwilio ar gyfer derbyn:**<br><br>☐ Crynodebau ysgrifenedig o unrhyw achos a gyflwynir yn y gwrandawiad(au) ar 12 Gorffennaf[21] | **19 Gorffennaf 2012** |
| **16** | **Terfyn amser y bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi ar gyfer derbyn sylwadau:**<br><br>☐ Drafft terfynol o Orchymyn Caniatâd Datblygu'r Awdurdod Archwilio[22] | **26 Gorffennaf 2012** |
| **17** | **Terfyn amser yr Awdurdod Archwilio ar gyfer derbyn:**<br><br>☐ Unrhyw sylwadau ysgrifenedig ar ddrafft terfynol y Gorchymyn Caniatâd Datblygu y mae unrhyw barti â buddiant yn dymuno eu gwneud[23] | **9 Awst 2012** |
| **Mae'r Awdurdod Archwilio o dan ddyletswydd i orffen archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod 6 mis yn dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod dechrau (adran 98 DC 2008).** Mae hyn yn golygu bod rhaid cau'r archwiliad erbyn 14 Medi fan bellaf, ond gall gau ynghynt yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio. | | |

[21] Rheol 8(1)(k)
[22] Rheolau 17 ac 8(1)(k)
[23] Rheolau 17 ac 8(1)(k)